**Cymru Wrth-hiliol**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Ymchwiliad yn ymwneud â gweithredu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.**

**Ymateb Sefydliadol**

Eich enw a'ch manylion cyswllt fel yr unigolyn, neu'r sefydliad, sy'n cyflwyno'r dystiolaeth.

- Steve Dooré, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant, BIPBC

P'un a yw'ch tystiolaeth wedi'i chyflwyno fel unigolyn, neu ar ran sefydliad.

- Ar ran BIPBC

Os ydych yn cyflwyno tystiolaeth fel unigolyn, cadarnhad eich bod dros 18 mlwydd oed.

- Ddim yn berthnasol

Os ydych o dan 13 mlwydd oed, cytundeb eich rhiant neu'ch gwarcheidwad eich bod yn cael cymryd rhan (gellir ei ddarparu dros e-bost).

- Ddim yn berthnasol

Cadarnhad p'un a fyddai'n well gennych i'ch enw beidio cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch tystiolaeth (ni chaiff enwau unigolion o dan 18 mlwydd eu cyhoeddi).

- Yn fodlon iddo gael ei gyhoeddi.

Cadarnhad p'un a fyddech yn hoffi i'r Pwyllgor ymdrin ag unrhyw ran o'ch tystiolaeth ysgrifenedig neu bob rhan ohoni'n gyfrinachol, yn cynnwys rhesymau dros y cais.

- Na.

Os ydych wedi cyfeirio at drydydd parti yn eich tystiolaeth, fel rhiant, brawd neu chwaer neu berthynas, cadarnhad eu bod wedi cytuno y

cewch rannu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i'w hadnabod a'u bod yn deall y caiff ei chyhoeddi

- Ddim yn berthnasol

**Nodau, Amcanion a Bwriadau**

Mae BIPBC yn cefnogi'r angen am Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn llwyr, ac i ran o'r cynllun hwnnw ganolbwyntio'n benodol ar y sector iechyd. Yn fras, y pum nod yn y cynllun yw'r rhai cywir yn seiliedig ar dystiolaeth o anghydraddoldeb hil a hiliaeth sefydliadol yn y sector iechyd, ac, os caiff ei gyflwyno, bydd yn darparu fframwaith ar gyfer llwyddiant mesuradwy o ran cyflawni'r nodau a'r amcanion.

Hyd yma, mae trefniadau ar gyfer monitro'r cynllun yn aneglur. Fel Bwrdd Iechyd, rydym wedi datblygu camau gweithredu penodol wedi'u halinio â'r nodau a'r allbynnau ac effeithiau diffiniedig fel y'i diffinnir yn y cynllun.

**Monitro a Mesurau**

Mae cynllun 16 o'r cynllun yn datgan "nid oedd y papur ymgynghori yn cynnwys dangosyddion perfformiad penodol gan ein bod yn profi'r archwaeth am y camau gweithredu penodol cyn cadarnhau manylion. Felly roedd y sawl a ymatebodd yn pryderu nad oeddem yn dryloyw am sut y byddem yn monitro newid, naill ai ar lefel feintiol (yn cynnwys niferoedd ac ystadegau) neu ar lefel ansoddol (e.e. trwy gyfweliadau, neu hanesion pobl o brofiad byw)". Nid yw ein Tîm Cydraddoldeb wedi gweld unrhyw gynnydd pellach ar y drafodaeth hon ac felly, rydym yn dal i fod yn ansicr yngylch y mesurau penodol o lwyddiant y mae angen i ni ddangos tystiolaeth ar eu cyfer.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw eglurder pellach yn cael ei roi gan y Grŵp Atebolrwydd er mwyn arwain y broses o roi ein cynlluniau lleol ar waith yn y lle cyntaf.

**Terfynau amser**

Mae rhai o'r terfynau amser/dyddiadau cau wedi mynd heibio ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw drefniadau i ddangos p'un a yw ein camau gweithredu wedi cael eu cyflawni. Er enghraifft:

> Defnyddio fframweithiau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ddatblygu cynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth; ar gyfer cyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth fel rhan benodol o'u hymagwedd ehangach tuag at gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth. Caiff cynnydd ei fonitro a'i adrodd trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a Chynlluniau Blynyddol, a phroses y Tîm Gweithredol ar y Cyd.

Rhagfyr 2022 oedd terfyn amser cychwynnol y cam gweithredu uchod. Nid ydym yn ymwybodol y gofynnwyd i ni ddarparu unrhyw dystiolaeth trwy'r prosesau hyn yn ymwneud â'n gwaith i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau lleol.

Yn yr un modd, Rhagfyr 2022 yw'r terfyn amser ar gyfer y cam gweithredu isod ac mae'r trefniadau ar gyfer monitro ei gwblhau'n aneglur:

> Bydd holl aelodau Byrddau'r GIG yn ymgymryd â rhaglen addysg wrth-hiliol ac yn rhoi cynnydd ar waith ac yn adrodd arno ochr yn ochr ag amcanion personol (ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd) er mwyn gwireddu gweledigaeth Cymru wrth-hiliol

**Adnoddau**

Nid yw'n eglur i ni beth yw'r disgwyliad i ni o ran gallu cyflawni rhai o'r nodau a'r camau gweithredu gyda'r adnoddau sydd ar gael eisoes. Mae gennym bryderon penodol ynghylch y cam gweithredu canlynol:

> Pennu gofyniad i holl Staff y GIG, Gwirfoddolwyr y GIG a myfyrwyr gwblhau rhaglenni addysg wrth-hiliol wedi'u hail-ddylunio

Mae diffyg eglurder ynghylch sut olwg sydd ar y rhaglenni addysg wrth-hiliol hyn, beth fydd eu nodau a deilliannau dysgu, a phwy fydd yn dylunio neu'n darparu'r hyfforddiant. Os bydd adnoddau'n cael eu darparu gan sefydliadau unigol GIG Cymru, sut caiff cysondeb o ran ansawdd a deilliannau eu dangos?

**Ymgysylltu â Staff**

Bu gofyn i sefydliadau GIG Cymru sicrhau bod rhwydweithiau staff ar gyfer staff du ac ethnig leiafrifol wedi'u sefydlu a'u bod yn weithredol. Nodwyd nifer o rwystrau o ran sicrhau bod staff, yn enwedig staff clinigol a staff nyrsio, yn gallu mynd i gyfarfodydd ac ymgysylltu â'r rhwydweithiau hyn. Mae angen eglurder yn ymwneud ag a yw hyn yn gyfystyr â hawl ar ochr yr unigolyn fel rhan o'i drefniadau gwaith i sicrhau cydraddoldeb mynediad at y rhwydweithiau cymorth hyn. Byddai hefyd yn fuddiol deall sut y bydd y rhwydweithiau hyn yn cyfrannu o ran monitro llwyddiant y cynllun yn barhaus.